

## Adroddiad Cau – Canolfannau a Gofodau Dysgu Cymraeg

### Yr Hen Lyfrgell, Caerdydd

#### **Nod ac Amcanion y Prosiect**

Yn arddangos 'y gorau o Gaerdydd a Chymru', mae'r Hen Lyfrgell yn ganolfan egniol ac arloesol sydd â'r nod o ddenu siaradwyr Cymraeg a'r di-Gymraeg fel ei gilydd, o Gaerdydd a thu hwnt. Mae'n atyniad unigryw i ymwelwyr lle defnyddir y Gymraeg i ddathlu popeth sy'n wych am Gymru a'i phrifddinas – eu diwylliant, eu treftadaeth a'u pobl.

Nod y ganolfan yw hyrwyddo a dathlu'r Gymraeg fel iaith fyw yn y brifddinas mewn canolfan gyfeillgar a chroesawgar sydd ar agor i holl ddinasyddion Caerdydd ac ymwelwyr. Mae'r Hen Lyfrgell yn cynnig amrywiaeth o gyfleusterau a gweithgareddau mewn awyrgylch cymdeithasol a chynhwysol lle mae'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymreig wrth wraidd popeth.

Mae yna gaffi, bar a bwyty sy'n gweini bwyd a diod o Gymru, siop yn gwerthu nwyddau Cymreig o ansawdd, siop lyfrau, swyddfeydd, ystafelloedd addysgu yn cynnig cyrsiau i ddysgwyr Cymraeg, ardal berfformio ac arddangos hyblyg, ac Amgueddfa Stori Caerdydd.

Mae'r Hen Lyfrgell yn bosibl drwy bartneriaeth effeithiol gyda Llywodraeth Cymru, Cyngor Dinas Caerdydd a sefydliadau blaengar yng Nghaerdydd megis Menter Caerdydd, Prifysgol Caerdydd, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, Amgueddfa Stori Caerdydd, Mela a Bodlon.

#### **Sut mae'r nod a'r amcanion hyn yn cyfrannu at feysydd strategol *iaith fyw*: *iaith byw a Bwrw Mlaen***

Mae gan y Canolfannau iaith rôl bwysig o ran cyfrannu at y weledigaeth o gyrraedd y miliwn erbyn 2050. Mae'r Hen Lyfrgell yn cyfrannu at bob thema strategol drwy fod yn leoliad ar gyfer dysgu ac ymarfer y Gymraeg, defnyddio a mwynhau'r Gymraeg a bod yn seilwaith i ehangu arferion iaith.

Mae ail thema'r Strategaeth iaith, sef cynyddu defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg, yn ymwneud â chreu gweithleoedd Cymraeg, cynnig gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg a hefyd darparu cyfleoedd cymdeithasol i ddefnyddio'r Gymraeg.

Mae'r Hen Lyfrgell, yn unol â Strategaeth y Llywodraeth, wedi creu canolbwynt ar gyfer gweithio cydlynol rhwng mentrau Cymraeg lleol, yn cyfrannu at greu gweithlu Cymraeg a chynnig gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg i'r cyhoedd, ac yn lleoliad i gyflwyno rhaglenni allweddol fel Rhaglen Dysgu Cymraeg yn y Gweithle.

Mae Thema 2 y Rhaglen Waith yn sôn yn fanylach am bwysigrwydd darparu cyfleoedd i ymarfer a defnyddio'r iaith yn rheolaidd er mwyn cefnogi ymdrechion pobl wrth ddysgu'r iaith. Mae'n sôn am yr angen i ehangu cyfleoedd anffurfiol i blant a phobl ifanc er mwyn pontio'r bwch rhwng addysg a'r gymuned ehangach a bod partneriaid cymunedol allweddol

a sefydliadau ar lawr gwlad yn bwysig er mwyn darparu cyfleoedd cyffrous i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i oriau ysgol.

## **Tystiolaeth o'r hyn a gyflawnwyd**

Drwy gydol y flwyddyn da ni wedi creu cylchlythyron rheolaidd sydd yn adlewyrchu i'r cyhoedd a'r partneriaid y gwasanaethau sydd wedi eu trefnu o dan adain Yr Hen Lyfrgell – gwasanaethau llwyddiannus sydd wedi denu cynulleidfaoedd newydd – mae'r digwyddiadau wedi targedu y categorïau isod:

- Plant a phobl ifanc
- Teuloueodd
- Busnesau
- Dysgwyr
- Ysgolion
- Ffrindiau Yr Hen Lyfrgell

Dyma linciau i'r cylchlythyron:

<https://us7.campaignarchive.com/home/?u=eb008753df7841ec0d3c910a1&id=e0a335be58>

## **Digwyddiadau Yr Hen Lyfrgell**

### **Clonc – sgwrsio yn Gymraeg**

Cyfle i ymarfer eich Cymraeg, sgwrsio'n naturiol, i gymdeithasu, gwranddo a chael paned pob dydd Llun a dydd Gwener rhwng 1 a 2pm yn YHL. Mae rhywun gwahanol yn cynnal y sesiynau yn wythnosol - Helen Prosser o'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol, un o wirfoddolwyr YHL neu aelod o dîm y Ganolfan.

### **Ein Gwirfoddolwyr – Frank a thaith hanesyddol Yr Hen Lyfrgell**

Mae ein hanesydd preswyl, Frank, yn gwneud teithiau dwyieithog o amgylch Yr Hen Lyfrgell i dwristiaid, dysgwyr a ffrindiau bob yn ail dydd Llun am 1pm (yn Gymraeg) a 2pm (yn Saesneg). Does dim angen archebu lle o flaen llaw ac mae'n gyfle gwych i ddysgwyr ymarfer eu Cymraeg.

### **Wikipedia Caerdydd**

Mae gweithdai Wikipedia Caerdydd, yn digwydd yn fisol. Cyfle i unrhyw un gyfieithu a chreu erthyglau Wikipedia i'r Gymraeg er mwyn sicrhau presenoldeb digidol i'r iaith.

### **Taith i'r tô - Amgueddfa Stori Caerdydd**

Mae Amgueddfa Stori Caerdydd yn dechrau cynnig teithiau o amgylch Yr Hen Lyfrgell yn dangos hen luniau Fictorianaid o'r adeilad - lluniau nad yw'r cyhoedd erioed wedi eu gweld o'r blaen. Mae'r daith glyweledol gyda'r nôs yn mynd drwy'r Hen Lyfrgell, i fyny i dô'r adeilad er mwyn profi'r olygfa anhygoel dros y ddinas ac yna'n gorffen yng Nghaffi Llaeth a Siwgr gyda choctel.

## Rygbi

Mae'r gemau rhyngwladol ar fin cychwyn a bydd Llaeth a Siwgr yn agor ei drysau unwaith eto i chi fwynhau awyrgylch gemau'r Hydref yng nghanol y ddinas. Bydd pob gêm yn cael eu dangos ar y sgrin fawr felly dewch draw i wyllo Cymru yn herio Awstralia, Georgia, Seland Newydd a De'r Affrig

## Eisteddfod Caerdydd 2018

Rydyn ni eisiau cefnogi'r Eisteddfod yng Nghaerdydd gymaint ag sy'n bosibl felly cysylltwch â ni gydag unrhyw ymholiadau: [post@yrhenlyfrgell.cymru](mailto:post@yrhenlyfrgell.cymru) neu 029 2022 5982 os ydych yn bwriadu trefnu rhywbeth i godi arian.

## Ysgol y Gymraeg – Prifysgol Caerdydd

Mae nifer o wersi Cymraeg yn cymryd lle yn YHL yn wythnosol sy'n bositif iawn o ran y Ganolfan.

### • CYRSIAU WYTHNOSOL

- 2 awr o astudio ar lein yn ogystal â dosbarth wythnosol. Gellir dewis allan o'r pedwar opsiwn yma. Mae'r cyrsiau mynediad ar gyfer dechreuwyr tra bod y cyrsiau sylfaen yn adeiladu ar eich sgiliau siarad Cymraeg ac ar gael ar gyfer y rheini sydd wedi cwblhau'r Lefel mynediad ac yn siarad ychydig bach o Gymraeg.
- Cod cwrs mynediad bob dydd Mawrth: CDM0071  
Cod cwrs mynediad bob dydd Mercher: CDMO15  
Cod cwrs mynediad 2 bob dydd Iau: CDM213  
Cod cwrs Sylfaen 1 a 2 bob dydd Mercher: CDS012

### • CYRSIAU MISOL

#### • CWRS MYNEDIAD 1 A 2

- 1 diwrnod cyfan y mis wedi ei gyfuno â gwaith ar-lein. Lefel mynediad 1 a 2 (120 awr) i'w gyflawni mewn blwyddyn. Bydd dysgwyr yn mynychu gwrs unwaith y mis o 9 tan 4 (60 awr dros y flwyddyn). Rhwng y gwersi bydd disgwyl i chi gyflawni eich astudiaethau ar-lein (60 awr dros y flwyddyn). Delfrydol ar gyfer dysgwyr hunan-ddisgybledig ac i'r rheini nad ydynt yn gallu mynychu gwersi'n wythnosol.

#### • CWRS LEFEL SYLFAEN RHAN 1 A 2

- 1 diwrnod bob mis yn y dosbarth wedi ei gyfuno â gwaith ar-lein. Lefel llawn Sylfaen (120 awr) dros 1 flwyddyn. Byddwch yn mynychu'r dosbarth bob mis rhwng 9 - 4 am un diwrnod. Bydd disgwyl i'r dysgwyr gwblhau tasgau ar-lein rhwng dosbarthiadau. Yn ddelfrydol ar gyfer dysgwyr hunan-ddisgybledig.

- **CWRS LEFEL CANOLRADD RHAN 1 A 2**
- 2 ddiwrnod yn y dosbarth wedi ei gyfuno â gwaith ar-lein bob mis. Lefel Canolradd llawn dros flwyddyn (120 awr). Byddwch chi'n mynychu'r dosbarth unwaith y mis o 9-4 dros ddau ddiwrnod. Bydd disgwyl i chi gwblhau gwaith ar-lein rhwng dosbarthiadau. Yn ddelfrydol ar gyfer dysgwyr hunan-ddisgybledig nad ydynt yn gallu mynychu dosbarthiadau wythnosol.

## **Hunan-asesiad o effeithiolrwydd a dylanwad y prosiect**

Cymunedau – yn sicr mae cael ganolfan iaith Gymraeg yng nghanol y ddinas wedi cryfhau safle'r Gymraeg o fewn y gymuned ac wedi cynyddu'r ddarpariaeth o weithgareddau Cymraeg ar gyfer plant a phobl ifanc a chynyddu eu hymwybyddiaeth o werth yr iaith. Rydym wedi gallu profi llwyddiant y gweithgareddau drwy'r nifeoredd cadarnhaol sydd wedi mynychu'r digwyddiadau.

Mae'r Hen Lyfrgell fel Ganolfan Gymraeg wedi llwyddo i gynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle nid yn unig o fewn y ganolfan iaith ei hunan lle taw'r iaith ddyddiol yn y caffi bar, siop a'r swyddfeydd yw'r Gymraeg ond hefyd wedi effeithio'n gadarnhaol ar amgueddfa Stori Caerdydd drwy gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yno er mwyn sicrhau gwasanaeth dwyieithog. Hefyd, mae nifer o ddigwyddiadau wedi cael eu cynnal ar gyfer busnesau er mwyn codi ymwybyddiaeth o werth y Gymraeg i'w busnes nhw.

## **Gwersi a ddysgwyd wrth gynnal y prosiect**

Mae canlyniadau wedi dangos bod yna awydd gan drigolion Caerdydd i weld Canolfan Gymraeg yng nghanol y brifddinas ac hefyd eu bod yn awyddus i weld y cynllun yn datblygu. 200 o ffrindiau Yr Hen Lyfrgell sy'n cyfrannu'n fisol ac yn gefnogol i weledigaeth hir dymor y ganolfan. Serch hynny, rydym wedi wynebu nifer o heriau yn y cyfnod cychwynnol e.e. colli partneriaid, denu partneriaid newydd a sicrhau cydweithio effeithiol rhwng partneriaid. Pwyntiau pwysig sydd wedi eu dysgu o'r cyfnod cychwynnol yw bod angen sicrhau cefnogaeth gyson a theg gan bob partner er mwyn sicrhau hirhoedledd y prosiect. Hefyd, mae cyfathrebu cyson gyda'r holl bartneriaid a'r awdurdol lleol yn hanfodol i sicrhau llwyddiant hir dymor.

Mae angen annog y llywodraeth i gyhoeddi grantiau yn gynt fel bod amser i gynllunio gwasanaethau'n effeithiol. Mae angen canllawiau clir ar bartneriaid o ran creu llywodraethiant ac incwm ar gyfer canolfannau iaith os yw'r llywodraeth eisiau eu gweld nhw'n ffynnu yn y dyfodol.

Os yw grantiau cyffelyb yn cael eu cyhoeddi'n y dyfodol mae'n bosib byddai'n werth i'r llywodraeth, fel y loteri genedlaethol, er enghraifft sicrhau bod unrhyw arian cyfalaf sy'n cael ei gynnig bod yna hefyd arian refeniw.

## **Canlyniadau**

O ran y canlyniadau, rydym wedi adrodd yn barod ar y nifer o lwyddinnau drwy'r linc i'r cylchlythyron. Rydym yn falch o'r adborth wyneb yn wyneb rydym wedi ei dderbyn bod y gwasanaethu hyn i gyd wedi cael effaith gadarnhaol ar ein cwsmeriaid, rhanddeiliaid a'r iaith Gymraeg. Yn anffodus oherwydd diffyg adnoddau dynol a chyllid refeniw pwrpasol nid ydym wedi gallu gweithredu cynllun cyson o werthuso'r gwasanaethau hyn. Serch hynny mae nifer o'r partneriaid sy'n rhan o'r prosiect e.e. Prifysgol Caerdydd a Menter Caerdydd yn gwerthuso eu gwasanaethau nhw – yn y clybiau mae Menter Caerdydd yn ei drefnu yn Yr Hen Lyfrgell ar gyfer plant a phobl ifanc mae 72% o'r plant sy'n mynychu'r clybiau yn dod o gefndiroedd gwbl ddigymraeg sydd yn sicrau bod ei defnydd iaith nhw'n cynyddu'r tu allan i oriau ysgol.

## **Allbynu**

Mae oddeutu 100 o bartneriaid wedi defnyddio'r ganolfan ar gyfer gwahanol ddibenion gan gynnwys cynadledda, digwyddiadau llenyddol, gigs, cyrsiau cyfieithu, digwyddiadau busnes, gwersi Cymraeg, sesiynau adolygu, twristiaeth ddiwylliannol a.y.y.b.